


Gwneud ein diwylliant a'n treftadaeth yn
hygyrch i bawb allu dysgu, ymchwilio a mwynhau



Datganiad Llesiant 2017 - 2021

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Holl ddiben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny a fyddai'n ein rhwystro rhag cyrraedd prif nod y Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Llyfrgell ystyried effaith hir dymor ei phenderfyniadau, i weithio'n well gyda'n gilydd o fewn a thu allan i'r Llyfrgell, a hynny er mwyn atal a dileu'r hyn sy'n annerbyniol yn eich cymdeithas, megis tlodi, anghydraddoldeb, afiechyd a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn ein hannog ni i weithio'n gydlynol i greu'r wlad y dymunem ni oll fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.



Mae'r Ddeddf wedi pennu saith nodau llesiant (gweler y cylch ar y dde), a hynny er mwyn sicrhau fod cyrff cyhoeddus fel y Llyfrgell yn teithio gyda'i gilydd i'r un cyfeiriad. Mae'r datganiad hwn yn nodi sut y bwriadai'r Llyfrgell gyfrannu at gyrraedd y nodau hynny ac felly gwneud gwahaniaeth positif a pharhaol nid yn unig i'r genhedlaeth bresennol ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol. Mae'n egluro hefyd sut y bu i'n hamcanion lles gael eu datblygu a'u cytuno.

Gweledigaeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw, yn unol â'i Chynllun Gweithredol yw:

Gwneud ein diwylliant a'n treftadaeth yn hygyrch i bawb allu dysgu, ymchwilio a mwynhau

Datblygwyd ein gweledigaeth i wneud ein diwylliant a'n treftadaeth yn hygyrch i bawb allu dysgu, ymchwilio a mwynhau o fewn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac fe'i ffurfiwyd trwy'r wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu ac ymgynghori ag Ymddiriedolwyr, staff, gwirfoddolwyr a'n rhanddeiliaid.

Byddwn yn manteisio ar bob cyfle i ysbrydoli a gwella bywydau unigolion trwy bresenoldeb y Llyfrgell yng Nghymru a thrwy ein casgliadau a chynyddu ymdeimlad o hunan lesiant a hunaniaeth, i ddarganfod, mwynhau a dysgu, ac i ddeall lle Cymru yn y byd.

Rydym wedi pennu pum maes ymrwymiad ble medrwn wneud y gwahaniaeth mwyaf sylweddol i fywydau bobl ein gwlad dros y ddegawd nesaf. Ein bwriad yw canolbwyntio'n gwaith ar gyflawni ein Gweledigaeth a chyfrannu at y saith nod llesiant.

Yr ymrwymiadau yw:



- 1. Gwneud gwahaniaeth i Gymru:** Gwneud gwahaniaeth i Gymru trwy newid bywydau, trwy weithio gyda sefydliadau lleol a cenedlaethol a chefnogi asiantaethau i greu cymunedau hapusach, iachach, a mwy cynaliadwy sydd â mynediad at wybodaeth, dysgu a diwylliant i bawb
- 2. Bod yn geidwad rhagorol i'n casgliadau:** Trwy fod yn gof y genedl, byddwn yn parhau i gasglu, rheoli a diogelu ein casgliadau
- 3. Sicrhau mynediad hir dymor i'n casgliadau:** Trwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn sefydlu a datblygu Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol ddwyieithog, gan arwain yn y sector gyda thechnoleg arloesol a sgiliau proffesiynol o'r radd flaenaf.
- 4. Bod yn ganolog i fywyd diwylliannol Cymru:** Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn elwa o'r buddsoddiad yng ngweithgareddau a gwasanaethau'r Llyfrgell, gan gydweithio gydag ystod eang o bartneriaid, fydd yn darparu cymorth i sefydliadau lleol a cenedlaethol, gan wella ein hamcanion llesiant
- 5. Sicrhau gwytnwch hirdymor:** Byddwn yn sicrhau gwytnwch ar gyfer ein cyllid a'n hasedau a diogelu dyfodol y Llyfrgell Genedlaethol.

Amcanion Ilesiant Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Ein hamcanion Lleisiant

Mae'n hamcanion Ilesiant yn cynnwys y cyfnod 2017 - 2021, ac yn gyd redeg â'r Cynllun Strategol, **Cof y Genedl: Llunio'r Dyfodol**

1. Gwneud gwahaniaeth i Gymru
2. Bod yn geidwad rhagorol i'n casgliadau
3. Sicrhau mynediad hir dymor i'n casgliadau
4. Bod yn ganolog i fywyd diwylliannol Cymru
5. Sicrhau gwytnwch hirdymor



Perthynas yr Amcanion â Nodau Llesiant y Ddeddf

Cymru lewyrchus	Cymru gydnherth	Cymru iachach	Cymru sy'n fwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynus	Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
-----------------	-----------------	---------------	-------------------------	----------------------------	---	---------------------------------------

Amcanion		1	2	3	4	5	6	7
1.	Gwneud gwahaniaeth i Gymru (economi greadigol, economi sy'n seiliedig ar wybodaeth)							
	Byddwn yn parhau â'n pwrpas craidd, arloesi a thyfu a gofalu ein bod yn cyfrannu'n effeithiol at fywyd y genedl, ar sail ymrwymiad hirdymor i ddiwallu anghenion gwasanaethau addysgol a diwylliannol pobl Cymru.	√		√		√	√	
	Byddwn yn darparu arweiniad drwy sefydlu strategaeth seilwaith digidol cydlynol ar gyfer y sector llyfrgelloedd ac archifau yng Nghymru.	√						
	Byddwn yn cynyddu ein presenoldeb ar draws Cymru ac yn ymestyn allan i gymunedau gyda'r gwasanaethau a ddarperir gennym a hynny er mwyn cyfoethogi bywydau, cefnogi dysgu a gwella cyfleoedd mewn bywyd.	√		√			√	

	<p>Byddwn yn chwarae rhan amlwg yn natblygiad Archif Genedlaethol i Gymru.</p> <p>Byddwn yn gweithio â phartneriaid er mwyn sicrhau fod treftadaeth ddiwylliannol arbennig a nodedig Cymru yn fwy amlwg y tu allan i Gymru gan gyfrannu at lwyddiant gweithgareddau twristiaeth ddiwylliannol Cymru a fyddai'n llesol i'r economi.</p> <p>Datblygu ein Strategaeth Gwirfoddoli a gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau gofal i sicrhau fod ein casgliadau a'n gwasanaethau yn dwyn lles i unigolion anghenus a chymunedau amrywiol.</p> <p>Darparu rhaglen o weithgareddau'n ymwneud ag iechyd a lles.</p> <p>Cyflawni ein hymrwymiaidau i raglen Diwylliant a Thlodi Llywodraeth Cymru.</p>	√							√	
2.	Bod yn geidwad rhagorol i'n casgliadau									
	<p>Parhau i gasglu a diogelu treftadaeth ddogfennol Cymru ac arloesi gyda ffyrdd newydd o roi mynediad ehangach at ein casgliadau cenedlaethol gwerthfawr.</p> <p>Byddwn yn datblygu strategaethau a pholisïau gofalus mewn ymgynghoriad â phartneriaid er mwyn rheoli'r casgliadau yn y tymor hir, a thrwy hynny sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.</p>	√	√		√		√			
3.	Sicrhau mynediad hir dymor i'n casgliadau									
	<p>Byddwn yn datblygu'r Llyfrgell Ddigidol Genedlaethol, yn seiliedig ar seilwaith cydlynol ac egwyddorion proffesiynol, fel strategaeth hirdymor.</p> <p>Byddwn yn datblygu Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol Genedlaethol i'w ddefnyddio yn y sector cyhoeddus, a chefnogi'r broses o greu fforwm cenedlaethol i gyfnewid arferion gorau fel menter gydwethredol.</p>	√	√		√	√	√	√	√	
4.	Bod yn ganolog i fywyd diwylliannol Cymru									
	<p>Byddwn yn sicrhau bod hanes, diwylliant a threftadaeth unigryw Cymru, sydd wedi'i ddogfennu mewn ffurfiau a chyfryngau amrywiol dros y blynyddoedd, ar gael bob amser i alluogi pawb i gael gwell dealltwriaeth o bwy ydym, i esbonio'r etifeddiaeth hanesyddol a diwylliannol sydd wedi ei ffurfio fel cenedl dros y canrifoedd, ac i ysgogi dysg ac ymchwil.</p>	√				√			√	

	<p>Byddwn yn estyn allan i gymunedau er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.</p> <p>Bydd yr iaith Gymraeg yn ffynnu o fewn ein sefydliad a byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn gwella'r modd y mae gwasanaethau dwyieithog o safon uchel yn cael eu darparu ar draws y sector cyhoeddus a chyfrannu at amcan uchelgeisiol Llywodraeth Cymru o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p> <p>Byddwn yn datblygu presenoldeb ffisegol y Llyfrgell mewn rhannau eraill o Gymru fel strategaeth tymor canolig.</p>	√	√	√	√	√	√	
5.	Sicrhau gwytnwch hirdymor							
	<p>Byddwn yn gweithredu strategaeth cynhyrchu incwm hirdymor a fydd yn cynyddu incwm masnachol, grantiau a rhoddion er mwyn caniatáu i ni ddatblygu fel sefydliad.</p> <p>Byddwn yn gweithredu Cynllun Datblygu'r Gweithlu er mwyn cadw arbenigedd, gwella cynllunio ar gyfer olyniaeth a datblygu sgiliau newydd sydd eu hangen er mwyn darparu ein blaenoriaethau strategol a phrosiectau penodol.</p> <p>Byddwn yn parhau i weithredu'n rhaglen waith gyfalaf gan ymrwymo i ffyrdd cynaliadwy o oleuo a gwresogi'n adeilad ac i sicrhau cadwraeth yr adeilad at y dyfodol.</p>	√					√	
		√						√

Pum ffordd o weithio

Byddwn yn ymdrechu i gyflawni ein hamcanion trwy'r Pum Ffordd o Weithio a nodir yn y Ddeddf:



Tymor Hir - Mae ein hamcanion llesiant yn canolbwyntio ar gyflawni ein Gweledigaeth hirdymor, ‘Gwneud ein diwylliant a’n treftadaeth yn hygyrch i bawb allu dysgu, ymchwilio a mwynhau’

Atal – Rhaid ceisio rhagweld ac atal problemau rhag gwaethygu wrth gynllunio.

Integreiddio – Mae amcanion llesiant y Llyfrgell yn gysylltiedig â’n Cynllun Strategol a phopeth arall a wnawn.

Cydweithio – Mae cydweithio mewnol ac allanol yn hanfodol wrth gyflawni ein hamcanion llesiant.

Cynnwys – Mae’n bwysig siarad â’r bobl hynny yr ydym yn eu gwasanaethu: mae ganddyn nhw rôl bwysig iawn i’w chwarae wrth lunio dyfodol y Llyfrgell.



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES